**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A OHIRIWYD, A GYNHALIWYD AR 24 CHWEFROR 2022, AC A WNAETH AIL-YMGYNNULL AR 3 MAWRTH 2022 DRWY MICROSOFT TEAMS**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, B Baynham, J Berriman, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, H Hulme, A Jenner, D Jones, E A Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Mills, G Morgan, JG Morris, R Powell, WD Powell, D Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, K S Silk, D Selby, L Skilton, D A Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams a J M Williams

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir M Barnes ac S Williams.

Atgoffwyd y cyfarfod, oherwydd bod y Cyngor yn dal i fod yn y cyfarfod a ddechreuodd ar 3 Mawrth 2022, bod Rheolau 4.37.1, 4.43, 4.49.2.1 a 4.49.2.2 y Cyfansoddiad yn parhau i fod wedi eu hatal.

| | |
|---|---|
| **3.** | **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2022-2027 A CHYLLIDEB 2022-23 A RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2022-2027** |

Cynigiodd Daliwr y Portffolio Cyllid, y Cynghorydd Sir Aled Davies, ddiwygiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Phyl Davies:
“Ers i’r Cabinet gymeradwyo a chynnig y Gyllideb Refeniw a’r Strategaeth Gyfalaf i’r Cyngor, mae’r Cyngor wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Rhaid defnyddio llawer o’r cyllid a dderbyniwyd i bwrpas penodol ond mae peth o’r dyraniad heb ei neilltuo a bydd yn gwella sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol gyfredol 2021/22.

Cyllid untro’n unig yw hwn ac ni ellir ei ddefnyddio i gwrdd â chostau cylchol parhaus, ond drwy ei ddefnyddio i gwrdd â Chostau Cyfalaf ni fydd angen i’r Cyngor fenthyca gymaint, a gall arbed gyda’r gyllideb refeniw.

Rydym hefyd wedi derbyn dyraniad Cyfalaf ychwanegol o £3.6m nad oeddem yn ei ddisgwyl.

Drwy ddefnyddio’r cyllid i gwrdd â gwariant Cyfalaf, gall y Cyngor leihau’r gofynion ar ei gyllideb ar gyfer 2022/23. Mae’r gyllideb yn cael ei hariannu gan setliad Llywodraeth Cymru a Threth y Cyngor felly, gyda llai o ofynion ar y gyllideb, byddwn yn gallu lleihau faint o Dreth y Cyngor yr oedd angen ei godi drwy’r cynnydd o 3.9%.

Ein nod yw rhoi gwerth am arian i'n preswylwyr a chadw Treth y Cyngor mor isel â phosib bob amser. Yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn o weld costau byw'n cynyddu'n sylweddol. Ond rhaid i ni hefyd sicrhau bod y gwasanaethau rheng flaen a ddarparwn ar gael i gwrdd ag anghenion parhaus ein preswylwyr. Mae wedi bod yn gydbwysedd anodd i'w daro erioed.
Cynigir felly bod y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn Gyfalaf (£3.6m) a Refeniw (£2.3m), ynghyd â'r tanwariant disgwyliedig ar MRP ar gyfer 2021/22 (£1.5m) y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad monitro Cyllideb ar gyfer Chwarter 3 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Chwefror 2022, yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r cynlluniau Cyfalaf presennol fel bod angen benthyca llai i'r pwrpas hwnnw, fydd hefyd yn lleihau'r refeniw sydd ei angen i dalu am y benthyciad hwnnw o £404k.

Mae'r angen i fenthyca llai'n rhyddhau'r Gyllideb Isafswm Refeniw a'r Gyllideb Llog Allanol o £407k a gallwn yna ddefnyddio'r arbedion hyn i leihau'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 3.9% i 3.39% a pharhau i ddarparu cyllideb gytbwys.
Diwygiad a gynigir – disodli Argymhelliad 2 fel a ganlyn:

2.1 "Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022-23 gan gynnwys cynnydd o 3.39% yn Nhreth y Cyngor yn 2022-23 ar gost net o £404K a chyfarwyddo'r Swyddog Adran 151 i gyhoeddi Model Adnoddau Ariannol diwygiedig (lle bo angen) cyn gynted â phosib.

2.2 Mae cost argymhelliad 2.1 yn cael ei ariannu gan leihad yn y Gyllideb Isafswm Refeniw a'r Gyllideb Llog Allanol o £404K."

Pleidleisiodd y Cyngor ar y diwygiad a'i basio o 36 pleidlais i 31, gydag un yn ymatal, a daeth yn gynnig parhaol.
Cynigiodd y Cynghorydd Sir David Thomas ddiwygiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance:
"Cynigiwn ddiwygio'r cynigion ar gyfer Treth y Cyngor i lawr i 0.1%.

Cynigiwn wneud hyn drwy ryddhau Cronfa Reoli'r Gyllideb i dalu am y gwahaniaeth rhwng 0.1% a 3.9%.

Byddwn yn ail-gyflenwi Cronfa Reoli'r Gyllideb gyda'r tanwariant disgwyliedig yn 2021/22.

Galwn hefyd am sefydlu tasglu trawsbleidiol ar unwaith er mwyn rhoi sylw i'r bwlch yn y gyllideb a phwysau costau gan roi diweddariad i'r MTFS cyn gynted â phosib."
Rhoddwyd y diwygiad i'r bleidlais ac fe gollodd o 31 pleidlais i 36.
Yna pleidleisiodd y Cyngor ar y cynnig parhaol ac o 36 pleidlais i 30
**PENDERFYNWYD Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022-23 gan gynnwys cynnydd o 3.39% yn Nhreth y Cyngor yn 2022-23 ar gost net o £404K a chyfarwyddo'r Swyddog Adran 151 i gyhoeddi Model Adnoddau Ariannol diwygiedig (lle bo angen) cyn gynted â phosib.**

**2.2 Mae cost argymhelliad 2.1 yn cael ei ariannu gan leihad yn y Gyllideb Isafswm Refeniw / Cyllideb Llog Allanol o £404K.**

**Argymhelliad 1**
O 35 pleidlais i 30

**PENDERFYNWYD bod yr MTFS ar gyfer 2022-2027, a gyflwynir yn Atodiad A, yn cael ei gytuno mewn egwyddor.**

**Argymhelliad 3**
O 36 pleidlais i 26 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Gofrestr Ffioedd a Thaliadau yn Atodiadau D ac E.**

**Argymhelliad 4**
O 36 pleidlais i 27 gydag 1 yn ymatal

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022-23 a gyflwynir yn Atodiad F.**

**Argymhellion 5-8**
O 51 pleidlais i 9 gyda 3 yn ymatal

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a gyflwynir yn Atodiad F.**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol yn Atodiad F.**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r uchafswm benthyca awdurdodedig o £539m am 2022-23 fel sy'n ofynnol o dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn unol ag adran 3.71 yr adroddiad hwn.**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus am 2022-23 a gyflwynir yn adran 3.67 i 3.71 yr adroddiad ac Atodiad F.**

| | |
|---|---|
| **4.** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2022 O WELEDIGAETH 2025 - EIN CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL – GAN GYNNWYS EIN HAMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024** |

Ystyriodd y Cyngor y diweddariad blynyddol o Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol (CIP). Cynigiwyd nifer o ddiwygiadau i'r Cynllun ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023 yn dilyn yr adolygiad ysgafn o amcanion a mesurau perfformiad presennol y CIP yn ystod Chwarter 3 2021-2022. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod am newid hinsawdd, dywedodd swyddogion y byddai newid hinsawdd yn cael ei wreiddiol yn holl amcanion y Cyngor.

Yn unfrydol

**PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol (Atodiad A) ar gyfer eu cyhoeddi yn y Diweddariad CIP ar gyfer 2022, i'w gweithredu o fis Ebrill 2022 ymlaen.**

**Y Cynghorydd Sir R G Thomas (Cadeirydd)**